Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Gynradd Coed-y-Garn
Rhes Parrot
Blaenau
NP13 3AH

14/11/2024

Annwyl Lauren Cairns

**Ymweliad Interim:** Hydref 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Coed-y-Garn i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol ym mis Hydref 2022. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Dylai arweinwyr ddefnyddio'r canfyddiadau hyn i gefnogi rhagor o welliannau yn y meysydd hyn. Mae arweinwyr a staff yr ysgol wedi rhoi cynlluniau priodol ar waith i fynd i'r afael â'r argymhellion ac mae ganddynt gynlluniau addas ar waith i barhau i symud yr ysgol yn ei blaen.

**Ffocws yr ymweliad**

**Herio pob un o'r disgyblion trwy addysgu cyson ac effeithiol**

- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd addas o ran gweithio tuag at sicrhau addysgu cyson effeithiol trwy'r ysgol gyfan.
- Mae arweinwyr wedi manteisio ar ddysgu proffesiynol buddiol sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar addysgu yn yr ysgol, yn enwedig mewn dosbarthiadau i ddisgyblion hŷn.
- Mae arweinwyr wedi cydweithio ag ysgolion yn yr ardal leol i ddatblygu ymagwedd gyson at gyflwyno strategaethau addysgu effeithiol.
- Mae arweinwyr, trwy eu prosesau monitro a gwerthuso, wedi nodi arfer dda ac arfer sydd angen ei gwella yn gywir. Maent wedi defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu arsylwadau triawdau cymheiriaid, lle arolygodd ymarferwyr arfer ei gilydd a chydnabod arfer effeithiol a lle gallai gwelliannau fod yn fuddiol i wella deilliannau i ddisgyblion.

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Yn gyffredinol, ar draws yr ysgol, mae athrawon a staff yn gofyn cwestiynau sy’n sbarduno meddwl disgyblion. Maent yn modelu geirfa briodol sy’n gysylltiedig â’r dasg y mae disgyblion yn ymgymryd â hi.
- Yn y dosbarthiadau iau, mae’r gweithgareddau a’r profiadau sydd ar gael yn yr amgylchedd dysgu yn datblygu medrau disgyblion yn addas. Fodd bynnag, mae’r gweithgareddau hyn yn dueddol o ganolbwyntio’n rhy fanwl ar thema ac nid ydynt yn cynnig cyfleoedd buddiol i blant ymestyn eu medrau bob tro, fel creadigrwydd a datrys problemau.
- Mae rhediad y rhan fwyaf o wersi yn dda ac mae hyn yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da trwy gydol y wers. Lle mae’r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn oedi’r dysgu i wirio dealltwriaeth a chaniatáu i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith.
- Mae llawer o athrawon yn rhoi amcan clir i’r wers a gweithgareddau i ddisgyblion ac mae hyn yn eu helpu i fod yn llwyddiannus. Maent yn ymestyn ac yn atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion trwy dasgau sy’n eu galluogi i gymhwyso eu dealltwriaeth i gyd-destunau eraill. Er enghraifft, wrth adio a thynnu gan ddefnyddio degolion.

**Sicrhau bod adborth athrawon yn symud disgyblion unigol ymlaen i’r cam nesaf yn eu dysgu yn effeithiol**

- Mae’r ysgol yn gwneud cynnydd addas tuag at fodloni’r argymhelliad hwn. Ers yr arolygiad diwethaf, mae arweinwyr wedi cymryd camau pwrpasol i ddatblygu arfer yn yr ystafell ddosbarth a gwella effaith adborth athrawon. Mewn llawer o ddosbarthiadau ar draws yr ysgol, mae athrawon yn rhoi adborth rheolaidd i ddisgyblion sy’n eu helpu, yn gyffredinol, i fynd i’r afael â chamsyniadau a gwella eu gwaith.
- Yn y dosbarthiadau hŷn, mae athrawon yn rhoi adborth llafar amserol i ddisgyblion ar hyd gwersi. Yn gyffredinol, mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall beth maent yn ei wneud yn dda. O bryd i’w gilydd, mae adborth llafar athrawon yn cynorthwyo disgyblion i wella eu gwaith. Er enghraifft, caiff y disgyblion hynaf eu hannog i ystyried a allent feddwl am eirfa fwy soffistigedig na’u dewisiadau gwreiddiol wrth fyfyrio ar drychineb Aberfan.
- Yn y dosbarthiadau iau, caiff dysgu ei orgyfarwyddo’n rhy aml. O ganlyniad, mae cyfleoedd i athrawon roi adborth amserol a gwerthfawr sy’n cynorthwyo disgyblion i symud eu dysgu ymlaen yn rhy anghyson.
- Mae athrawon yn y dosbarthiadau hŷn yn defnyddio holi medrus i ennyn dealltwriaeth disgyblion. Mae hyn yn eu helpu i nodi pa mor dda y mae disgyblion yn cyflawni a mynd i’r afael â’r hyn y mae angen iddynt ei wneud nesaf yn gyflym a hwyluso hynny. Mae’r ymagwedd feddylgar hon yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu dysgu mewn modd adeiladol heb ormod yn y fantol.
- Mae’r ysgol wedi datblygu cod systematig ar gyfer adborth ysgrifenedig sy’n cael ei addasu’n briodol i anghenion disgyblion wrth iddynt dyfu’n hŷn. Yn gyffredinol, mae athrawon yn y dosbarthiadau hŷn yn defnyddio’r ymagwedd hon yn synhwyrol wrth roi adborth i ddisgyblion, yn enwedig o ran eu gwaith ysgrifenedig. At ei gilydd, mae adborth ysgrifenedig athrawon yn galluogi disgyblion i gywiro gwallau ac, o bryd i’w gilydd, datblygu eu dysgu ymhellach.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan: http://www.estyn.gov.wales/provider/6772313

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol